# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Mawrth 2017

Amser: 09.00 - 10.44

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/3947) yn:

http://senedd.tv/cy/3947

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Angela Burns AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | Simon Cursio, First Cymru<br>Joe Graham, Great Western Railway<br>Margaret Hickish MBE, Network Rail<br>Barry Lloyd, Trenau Arriva Cymru<br>Geraint Morgan, Trenau Arriva Cymru<br>Cynthia Ogbonna, Cardiff Bus<br>John Pockett, Confederation of Passenger Transport |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod (PDF 561KB) Gweld fel HTML (221KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Roedd Angela Burns yn dirprwyo ar ran Janet Finch-Saunders.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-745 Mwy o ddarpariaeth ar gyfer chwaraeon moduro oddi ar y ffordd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am ganlyniad cyfarfod y deisebydd â swyddogion Llywodraeth Cymru cyn ystyried sut i symud y ddeiseb yn ei blaen.

### 2.2 P-05-746 Cludiant ysgol am ddim i bob plentyn yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am sylwadau'r deisebydd i ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith cyn ystyried sut i symud y ddeiseb yn ei blaen.

### 2.3 P-05-747 Profi am TB mewn gwartheg

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i aros am sylwadau'r deisebydd i ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig cyn ystyried sut i symud y ddeiseb yn ei blaen.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywyn

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb ac, o ystyried bod y deisebydd yn fodlon ar yr ymrwymiadau a wnaed o ran darparu gwasanaethau, cytunodd i gau'r ddeiseb.  Roedd yr Aelodau hefyd am longyfarch y deisebwyr am ganlyniad llwyddiannus eu deiseb.

### 3.2 P-05-697 45,000 o Resymau Pam bod ar Gymru Angen Strategaeth ar Ddementia

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb ac, o ystyried bod prif nod y ddeiseb yn cael ei diwallu bellach, cytunodd i gau'r ddeiseb. Wrth wneud hynny, roedd yr Aelodau am ddiolch i'r deisebwyr am eu hymgysylltiad â'r broses ddeisebu.

### 3.3 P-05-732 Amseroedd Aros Annerbyniol ar gyfer Cleifion y GIG yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Wrecsam / Ysbyty Maelor Wrecsam

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am sylwadau'r deisebydd i ymateb i'r ohebiaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr cyn ystyried sut fyddai orau i symud y ddeiseb yn ei blaen.

### 3.4 P-04-576 Caniatáu i Blant yng Nghymru Gael Gwyliau Teuluol yn Ystod Tymor yr Ysgol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn a gymerwyd unrhyw gamau pellach o ran y mater hwn er mwyn ymateb i'r wybodaeth a gafwyd gan awdurdodau lleol, ers yr ohebiaeth ddiwethaf rhwng y Pwyllgor a'i rhagflaenydd ym mis Chwefror 2016.

### 3.5 P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i Bawb

Datganodd Mike Hedges y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae ei chwaer yn fyddar iawn, ac mae ef wedi bod yn ymwneud â'r deisebwyr ond nid yw wedi ymwneud â'r ddeiseb benodol hon.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r deisebwyr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i roi tystiolaeth yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

### 3.6 P-05-727 Arian i dalu ffi cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i gau'r ddeiseb gan fod pwnc gwreiddiol y ddeiseb fel y'i cyflwynwyd, sef lefel sybsidiaredd 2017/18, wedi cael ei sortio.

### 3.7 P-05-701 Gwelliannau i Ddiogelwch y Ffyrdd ar Hyd Cefnffordd yr A487 Rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, I Gynnwys Lle i Fynd Heibio

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gysylltu â'r deisebydd i ofyn a oes ganddo unrhyw sylwadau apellach ynghylch y wybopdaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

### 3.8 P-05-721 Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch canlyniad trafodaethau'r deisebwyr â swyddogion Llywodraeth Cymru.

### 3.9 P-05-734 Gwahardd Codi Ffioedd Asiantau Gosod ar Denantiaid.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- aros am ymateb gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn nodi a ydynt yn bwriadu cynnal unrhyw waith pellach ar y mater hwn, cyn penderfynu sut i symud y ddeiseb yn ei blaen; a
- gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant pryd y mae'n bwriadu gwneud datganiad ar y mater.

## 4 Sesiwn dystiolaeth - P-05-710 Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo'i Hangen Arnynt

Atebodd y tystion gwestiynau gan y Pwyllgor.